Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru•Love Ceredigion

**Cyfarfod 32**
**2 Rhagfyr 2022, 13:30**
**Cyfarfod Rhith dros Zoom**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | |
| Hazel Lloyd-Lubran (HLL) | Is-Gadeirydd, CAVO |
| Gavin Brown (GB) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Rachel Jarvis (RJ) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Gwilym Dyfri Jones (GJ) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Gwyn Evans (GE) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Richard Felton (RF) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| James Gibb (JG) | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Jan Batty (JB) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Peter Skitt (PS) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Rhodri Llwyd-Morgan (RLM) | Prifysgol Aberystwyth |
| Uwcharolygydd Ross Evans (RE) | Heddlu Dyfed Powys |
| Vanessa Cashmore (VC) | Coleg Ceredigion |
| Barry Rees (BR) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Elen James (EJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Matthew Vaux (MV) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Bryan Davies | Cyngor Sir Ceredigion, Cadeirydd, (rhan) |
| **Yn bresennol hefyd:** | |
| Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Dr Daniel Warm (DW) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Cathryn Morgan (CM) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Arolygydd Kaamil Garnie (KG) | Heddlu Dyfed Powys |
| Roxanne Treacy (RT) | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru |
| **Tîm Cymorth BGC:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Naomi McDonagh (NMc) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Kieran Metson (KM) | Cyngor Sir Ceredigion |

| **32.1** | **Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datgelu buddiannau** |
|---|---|
| Cychwynnodd yr Is-Gadeirydd (HLL) y cyfarfod trwy groesawu pawb. Gan nad oedd y Cadeirydd yn gallu bod yn bresennol a'i fod wedi ymddiheuro, cytunodd yr Is-Gadeirydd gadeirio'r cyfarfod. Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | |

**Ymddiheuriadau:**
Y Cynghorydd Bryan Davies, Cyngor Sir Ceredigion (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Alun Williams, Cyngor Sir Ceredigion
Andrew Cornish, Coleg Ceredigion
Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Cyngor Sir Ceredigion
Prif Arolygydd Christina Fraser, Heddlu Dyfed Powys
Christine Harley, Gwasanaeth Prawf
Dewi Day, Prifysgol Aberystwyth
Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion
Phil Kloer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jo McCarthy, Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Samantha Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Steve Moore, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Tom Snelgrove, Coleg Ceredigion
Victoria Jones, Llywodraeth Cymru

| **32.2** | **Cofnodion cyfarfod blaenorol BGC Ceredigion – 20.09.22** |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20.09.22 yn gofnod cywir ac eithrio'r canlynol:

Roedd GJ ac EE yn bresennol yn ystod y cyfarfod diwethaf, ond ni chofnodwyd eu presenoldeb yn y cofnodion.

| **32.3** | **Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol** |
|---|---|

**Cynllun Llesiant Lleol:** Rhoddodd NMc ddiweddariad, gan nodi y cynhaliwyd cyfarfodydd gyda thri grŵp peilot BGC sy'n seiliedig ar leoedd, a rhoddodd wybodaeth iddynt am gynnydd yr ymgynghoriad. Mae gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys posteri ac ati, wedi cael eu hanfon ymlaen i bartneriaid er mwyn cynorthwyo gyda'r gweithgarwch i rannu ac amlygu'r ymgynghoriad yn eu sefydliadau a'u rhwydweithiau.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, nododd NMc bod yr holl logos yng Nghynllun Llesiant Lleol 2023-28 drafft wedi cael eu diweddaru i'r fersiynau diweddaraf. Yn olaf, trafodir gwaith tuag at fframwaith y llywodraeth ar gyfer cynllun Llesiant Lleol 23-28, gan gynnwys diffinio atebolrwydd, amlinellu rolau a chyfrifoldebau, amserlenni a mecanweithiau adrodd gyda grwpiau peilot BGC sy'n seiliedig ar leoedd.

**Plannu coed:** Rhoddodd RLM ddiweddariad ar ran Dewi Day ynghylch menter plannu coed Prifysgol Aberystwyth. Mae'r gwaith plannu coed yn mynd rhagddo, a phlannir 30,000 o goed dros y gaeaf, gan ddyblu i 60,000 dros y gaeaf flwyddyn nesaf. Mae hyn wedi cael ei gymeradwyo gan NRW.

**Canolfannau Clyd:** Rhoddodd CM ddiweddariad am grŵp Gorchwyl a Gorffen Is-grŵp Tlodi BGC ar gyfer Canolfannau Clyd. Mae'r grŵp wedi cyfarfod 4 gwaith a gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru a rhywfaint o gyllid ychwanegol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, maent wedi sefydlu cynllun cyllid grant ar gyfer y rhai sy'n dymuno creu lle Croeso Cynnes. Cafwyd 43 o geisiadau am gyllid hyd yn hyn, ac mae'r rhan fwyaf wedi cael eu cymeradwyo.

Adroddodd CM hefyd bod lleoliadau holl Fannau Croeso Cynnes Ceredigion bellach ar gael ar fap

ar gyfer Ceredigion (ar blatfform Dweud Eich Dweud). Mae hwn yn gysylltiedig â thudalennau Cyswllt CAVO a Chostau Byw ymhlith eraill. Gall y cyhoedd droi at hwn er mwyn gweld manylion eu lle Croeso Cynnes lleol, ac mae'n cynnwys y manylion cyswllt perthnasol hefyd.

Cyhoeddwyd dau ddatganiad i'r wasg hyd yn hyn; y cyntaf yn nodi sut i gysylltu a gwneud cais am gymorth, a'r ail yn cyhoeddi'r ffaith bod map Croeso Cynnes wedi cael ei gyhoeddi. Caiff nifer o ganolfannau eu sefydlu, mewn trefi ac yn yr ardaloedd mwy gwledig, a threfnir cludiant cymunedol ar gyfer y rhai na allant gael mynediad i'r lleoedd. Os bydd unrhyw un sy'n bresennol yn dymuno sicrhau bod gwybodaeth neu ddogfennau gan eu sefydliad yn cael eu harddangos yn y canolfannau hyn, nododd CM bod neges e-bost yn cael ei pharatoi sy'n cynnwys canllawiau ynghylch sut i ofyn am hyn.

Cynhaliwyd gweminar ar-lein i ddarparu cyngor a chymorth ynghylch Canolfannau Clyd ac mae recordiad o hwn ar gael ar wefan ConnectCeredigion.org. Y bwriad yw y bydd trefnwyr y lleoedd hyn yn cyfarfod yn y flwyddyn newydd i drafod yr hyn sydd wedi gweithio'n dda. Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw un a oedd yn bresennol ac sy'n gwybod am unrhyw ganolfannau neu ddarpar ganolfannau nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith eto neu wedi cael eu cynnwys ar y map eto, i gysylltu â CM.

**Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF):** Rhoddodd BR ddiweddariad i'r aelodau – mae'r cyllid dros gyfnod o dair blynedd ac mae'r cyfnod hwn wedi cychwyn; cyflwynwyd ceisiadau am fuddsoddiad erbyn y dyddiad cau, a'r disgwyliad oedd y byddai adborth wedi cyrraedd erbyn diwedd mis Hydref, ond bu oedi oherwydd y newidiadau gwleidyddol arwyddocaol o fewn Llywodraeth y DU. Nododd BR na chyfeiriwyd fawr iawn at SPF yn Natganiad yr Hydref ac ni chafwyd cadarnhad ffurfiol o hyd. Mae'n annhebygol y bydd digon o amser i gyflawni'r meysydd gwaith posibl a nodwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 erbyn mis Ebrill 2023 ac os na fydd gwybodaeth swyddogol wedi cyrraedd o hyd, nodwyd y bydd yn rhaid ystyried gwario ar sail risg ar gyfer rhai o'r meysydd gwaith/prosiectau posibl a nodwyd. Bydd cyllid trwy UCEF yn dod i ben a bydd gweithrediad SPF yn galluogi'r gwaith hwn i barhau, er mwyn i'r ddarpariaeth barhau. Os bydd gofyn i unrhyw un gael gwybodaeth bellach, nododd BR bod papur yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet ddydd Mercher nesaf (7 Rhagfyr), y bydd modd troi ato trwy wefan Cyngor Sir Ceredigion.

**Diweddariad am y Cyfrifiad:** Cyfeiriodd RLM at y cyhoeddiad a wneir cyn bo hir am Gyfrifiad 2021, yn enwedig mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yng Ngheredigion. Holodd RLM a fyddai'r BGC yn gwerthfawrogi cyflwyniad am hyn.

Cyfeiriodd BR at y Tîm Ymchwil Polisi a Pherfformiad sy'n darparu dadansoddiadau rheolaidd o'r data a gaiff ei ryddhau gan y Cyfrifiad. Ychwanegodd AW bod unigolyn yn ystyried adroddiadau'r cyfrifiad a bod nifer ohonynt yn berthnasol i'r BGC, felly byddai cyflwyniad am bwyntiau allweddol gan gynnwys yr iaith Gymraeg, demograffeg, o werth er mwyn ystyried effeithiau posibl ar y gwasanaethau yn y sir. Bydd RLM yn cysylltu â Thîm Ymchwil Cyngor Sir Ceredigion i archwilio data y cyfrifiad a chydweithio ar unrhyw gyfleoedd posibl, gan gynnwys rhoi cyflwyniad yn ystod cyfarfod nesaf BGC.

**Gweithredu: NMc i ychwanegu canlyniadau Cyfrifiad 2021 fel eitem ar yr agenda yn ystod cyfarfod**

**nesaf BGC**
**Gweithredu: RLM i gysylltu â thîm Ymchwil CSC ac AW i drafod y ffordd orau o gyflwyno data'r Cyfrifiad yn ystod cyfarfod nesaf BGC.**

| 32.4 | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru – Project Dewi – Cyflwyniad |
|---|---|

Rhoddodd RT gyflwyniad am Brosiect Dewi, prosiect a ariannir gan y Loteri Cenedlaethol, a ddarparir gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru mewn 3 o ardaloedd clwstwr BGC yng Nghymru, sef; Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, Cwm Taf Morgannwg, a bydd y gwaith yn parhau am 4 blynedd bellach.

Nododd RT bod y cymorth yn cyfateb ag oddeutu gwerth £78,000 o amser ymgynghori y flwyddyn ar gyfer y BGCau ar draws Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.

Amcan y prosiect yw sicrhau ymgysylltu a chynnwys ystyrlon, a chynorthwyo gweithrediad ymarferol. Mae Prosiect Dewi yn ceisio creu'r amodau ar gyfer perthnasoedd cynaliadwy rhwng sefydliadau, gyda chymunedau a dinasyddion, trwy gyfrwng seilwaith cyswllt parhaus. Yn ogystal, mae'n canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd ymgysylltu ystyrlon, gan gynnwys gyda lleisiau na chlywir ganddynt yn aml, sy'n arwain at gynnwys cymunedau yn y gwaith o gyd-gynhyrchu datrysiadau lleol, lle y bydd pobl a gweithwyr proffesiynol yn manteisio ar eu cryfderau a'u hadnoddau er mwyn sicrhau newid cadarnhaol.

Y cynllun:

- Cyfnerthu perthnasoedd ymddiriedaeth a pharhau i ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a phreswylwyr lleol er mwyn siapio'r Cynlluniau Llesiant y mae'r asesiadau yn cyfrannu atynt
- Datblygu gallu a hyder gyda chyd-gynhyrchu, hwyluso a sgiliau cysylltiedig yn eu timau a'u partneriaid.
- Cyd-gynhyrchu ymatebion lleol i'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynlluniau Llesiant trwy gyfrwng cyswllt parhaus cymunedau, mudiadau dan arweiniad y gymuned, sefydliadau partner statudol ac o'r trydydd sector

Nododd RT bod gwaith wedi cychwyn gyda Cheredigion eleni a bod cynrychiolwyr Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn cyfarfod gyda'r tîm BGC a'u bod yn cael eu gwahodd i fynychu is-grwpiau peilot BGC sy'n seiliedig ar leoedd er mwyn cynnig cymorth mentora a chyngor. Pwysleisiodd RT mai diben eu rôl yw cynghori a chynorthwyo yn hytrach na chreu llwyth gwaith ychwanegol.

Dywedodd RT bod rhanbarth Gorllewin Cymru wedi mynegi diddordeb, gan ddynodi eu bod yn dymuno symud o ymgysylltu i gael eu cynnwys a meithrin perthnasoedd ystyrlon gyda chymunedau a gwella gweithgarwch ymgysylltu o ran y Cynllun Llesiant a'i gyflawni. Cyfeiriwyd hefyd at fynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal ymgysylltu mewn ardaloedd gwledig a gyda grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, yn ogystal ag archwilio ffyrdd o ymgysylltu a chyd-gynhyrchu yn ystod cyfnodau o newid mawr e.e. pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw.

Mae Prosiect Dewi yn cynnal rhwydwaith dysgu ar gyfer pob BGC yng Nghymru i rannu canfyddiadau, profiadau a gwersi a ddysgwyd trwy gyfrwng cylchlythyr cyd-gynhyrchu bob pythefnos a digwyddiadau dysgu misol ar gyfer pob BGC a'r aelodau. Estynnodd RT wahoddiad i'r holl rai a oedd yn bresennol i gofrestru i gael y cylchlythyr os ydynt yn dymuno.

**Gweithredu: NMc i ddosbarthu dolenni i'r rhwydwaith Cyd-gynhyrchu.**

| 32.5 | Diweddariad am Gynllun Llesiant Lleol 2023-28 drafft |
|---|---|

Rhoddodd NMc ddiweddariad am y Cynllun Llesiant Lleol a dywedodd bod yr ymgynghoriad bellach yn fyw, ac y bydd yn dod i ben ar 31 Ionawr. Dywedodd NMc bod aelodau ac is-grwpiau BGC wedi cael dolenni i'r ymgynghoriad, ac anogir yr holl aelodau i ddosbarthu'r rhain ymhlith cydweithwyr, staff a'u rhwydweithiau. Yn ogystal, anfonwyd yr ymgynghoriad at aelodau etholedig, fe'i codwyd yn ystod cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion ac fe'i anfonwyd ymlaen at Gynghorau Tref a Chymuned. Nododd NMc bod fersiwn Hawdd i'w Ddarllen o'r ddogfen ar gael ac y bydd fersiwn i Bobl Ifanc ar gael cyn bo hir. Cydlynwyd gweithdai i gasglu safbwyntiau disgyblion cynradd ac uwchradd gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru er mwyn helpu i gasglu safbwyntiau a chyfraniadau cenedlaethau'r dyfodol.

Paratowyd pecyn cyfryngau sy'n cynnwys posteri, datganiadau i'r wasg a deunydd cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Twitter, Facebook ac Instagram, a rhannwyd y rhain i gyd gydag aelodau BGC. Dywedodd NMc bod hwn bellach yn fyw o bersbectif Cyngor Sir Ceredigion, a gofynnwyd i'r aelodau rannu'r pecyn cyfryngau hwn gyda'u timau cyfathrebu.

Yn ogystal, mae erthygl mewnrwyd i staff wedi cael ei rhyddhau, ac mae posteri hyrwyddo a fersiynau argraffedig o'r cynlluniau Llesiant Lleol Drafft a'r cwestiynau ymgynghori ar gael mewn llyfrgelloedd, gan gynnwys copïau o'r fersiwn Hawdd i'w Ddarllen. Trosglwyddwyd nodiadau briffio i staff llyfrgelloedd a staff canolfannau cyswllt, er mwyn sicrhau bod aelodau o staff yn wybodus am y broses os byddant yn cael unrhyw ymholiadau. O ran rhanddeiliaid a rhwydweithiau, lluniwyd rhestr o sefydliadau a grwpiau cyfarfod a dosbarthwyd yr ymgynghoriad i'r rhain. Cynhelir digwyddiad Balchder Gaeaf LHDTC+ yng Nghaerfyrddin ar 10 Rhagfyr, lle y caiff yr ymgynghoriad am gynllun Llesiant Lleol Ceredigion ei hyrwyddo a bydd cyfleoedd i gasglu adborth.

O ran y camau nesaf, ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 31 Ionawr, cynhelir dadansoddiad o'r holl ymatebion, a ddefnyddir i gyfrannu at y cynllun a gyflwynir i BGC ar 6 Mawrth. Ar ôl i'r ddogfen hon wedi'i diweddaru gael ei chwblhau a'i chytuno ar 6 Mawrth, bydd angen i aelodau'r bwrdd statudol ei gyflwyno i'w byrddau er mwyn iddynt ei gymeradwyo, a chynhelir ail gyfarfod BGC ar 24 Ebrill er mwyn cymeradwyo'r Cynllun Llesiant Lleol. Bydd hyn yn caniatáu i BGC Ceredigion fodloni'r dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi.

Anogodd NMc y partneriaid i gyfrannu yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn sicrhau bod yr hyn a gyflwynir ar 6 Mawrth yn gynrychiolaeth gywir o safbwyntiau pawb. Yn ogystal, anogodd NMc y partneriaid i anfon pecynnau cyfryngau at eu timau cyfathrebu er mwyn iddynt gael eu hyrwyddo mor eang ag y bo modd. Diolchodd NMc i'r holl bartneriaid a'r is-grwpiau am eu holl help hyd yn hyn.

Nododd DD mai hwn yw'r cyfle i bobl gael mewnbwn i'r cynllun terfynol. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ddiwedd fis Ionawr, ni fydd cyfle i ofyn am ddiwygiad neu i gyfleu safbwyntiau ar ôl y dyddiad hwnnw oherwydd y bydd y gwaith dadansoddi yn cychwyn ar unwaith ar 1 Chwefror.

**GWEITHREDU: Holl aelodau BGC i sicrhau bod yr ymgynghoriad am y cynllun Llesiant Lleol yn cael ei rannu a'i hyrwyddo trwy eu rhwydweithiau, eu staff a'u ffrydiau cyfryngau cymdeithasol.**

| 32.6 | Diweddariadau am Brosiectau Peilot BGC sy'n Seiliedig ar Leoedd |
|---|---|

**Strategaeth Datgarboneiddio ac Aberystwyth Carbon Niwtral**

Rhoddodd RLM ac RJ ddiweddariad am y cyfarfodydd mwyaf diweddar a gynhaliwyd. Roedd RJ wedi cadeirio'r cyfarfod mwyaf diweddar. Nododd RLM bod aelodau'r grŵp i gyd yn gweithio'n galed iawn yn casglu gwybodaeth ac yn adrodd am weithgareddau sefydliadau partner amrywiol wrth i ni weithio tuag at Sero Net. O ran y Prosiect Rhwydwaith Gwresogi, mae'r astudiaeth ddichonolrwydd ar gyfer y cynllun hwn bellach wedi cael ei chwblhau ac ar yr adeg hon, y gost yw £13m, sy'n golygu ei fod yn brosiect sylweddol iawn. Bydd y cynllun arfaethedig yn cynnwys Campws Penglais, Ysbyty Bronglais, Llety i Fyfyrwyr ac Ysgol Uwchradd Penglais; bydd y cyfleuster gwresogi yn gallu darparu gwres trwy bibellau a dŵr poeth o'r safle hwn. Cytunwyd parhau i'r cam nesaf er mwyn paratoi cynllun manwl. Bydd y broses hon yn costio £150,000 a nododd RLM eu bod yn ystyried dewisiadau i rannu'r gost gyda phartneriaid ar hyn o bryd. Dilynir hyn gan gyfnod ymgynghori, a fydd yn berthnasol i'r gymuned ac i bartneriaid. Os bydd yn llwyddiannus, nododd RLM y bydd y cynllun hwn yn arbed un rhan o dair o'r holl garbon deuocsid a gaiff ei greu gan y Brifysgol. Bydd yn delio gyda 97% o allyriadau carbon Ysbyty Bronglais mewn perthynas â defnyddio ynni mewn adeiladau.

Nododd RJ ei bod hi wedi cadeirio cyfarfod diwethaf Is-grŵp y Strategaeth Datgarboneiddio a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, dros dro. Rhoddodd RJ grynodeb o'r trafodaethau, gan gynnwys diweddariad am ymgynghoriad y Cynllun Llesiant Lleol a throsolwg Prosiect Dewi. Gofynnwyd i aelodau'r cyfarfod ystyried cyfleoedd sy'n cefnogi adrannau perthnasol o'r cynllun Llesiant gan gynnwys blaenoriaethau mewn perthynas â'r camau nesaf a chyflawni. Ar ran NRW, rhannodd RJ rhan o ganllaw ar gyfer BGCau o'r enw "Mynd i'r Afael ag Argyfyngau Hinsawdd", ac amlygodd bwyntiau trafod allweddol, gan gynnwys paratoi asesiad risg hinsawdd lleol. Ymrwymodd Cyngor Sir Ceredigion i arwain trwy esiampl ar allyriadau carbon ar ôl cytuno ar y Strategaeth Gorfforaethol newydd. Mae Cynllun Gwres Aberystwyth yn symud yn ei flaen, ac mae'r partneriaid wedi ystyried y ffordd orau o symud hwn yn ei flaen. Yn ystod trafodaethau, cynigiwyd gwahodd Partneriaeth Natur Leol Ceredigion a grwpiau cymunedol pellach i helpu i hwyluso cyflawniad y cynllun Llesiant. Awgrymodd Prosiect Dewi y gallent helpu gyda'r dasg hon.

Rhoddodd RJ adborth bod Coleg Sir Gâr/Coleg Ceredigion yn cynnal hyfforddiant mentrau gwyrdd, cyrsiau ôl-osod ar gyfer sefydliadau, meithrin sgiliau adfer gwyrdd mewn ardal leol. Codwyd y bydd gan fusnesau mwy o faint gynigion datgarboneiddio y gallent fod yn berthnasol i'r cynllun, ac mae'n rhaid ystyried sut y gellir cryfhau'r gweithgarwch ymgysylltu gyda'r sefydliadau hyn. Dywedodd RJ bod gwaith yn y dyfodol yn aml yn ddibynnol ar gyllid ar ffurf grantiau, ac o'r herwydd, mae angen dealltwriaeth gliriach arnom o fentrau parhaus er mwyn nodi'r hyn sy'n cael ei wneud o ran cyflawni, ble y mae'r bylchau a rhannu profiadau dysgu. Roedd y camau yn cynnwys cynnal trafodaeth gyda Phrosiect Dewi am y ffordd orau o ymgysylltu gyda grwpiau, a threfnu casgliad o fentrau a gyflawnir gan sefydliadau partner er mwyn rhannu dysgu ond hefyd, er mwyn nodi unrhyw fylchau posibl a'r ffordd orau o roi sylw iddynt.

Holodd GE sut a ble y cofnodir camau gweithredu busnesau, felly er enghraifft cwmnïau Cenedlaethol wedi'u lleoli yng Ngheredigion, a ydynt yn cael eu mesur ar sail darpariaeth leol cynlluniau ar ôl troed Ceredigion neu a ydynt yn coladu'r holl siopau ar draws y DU ac yn adrodd fel cyfraniad cyffredinol ar gyfer eu cwmni, y gallai fod wedi'i leoli y tu allan i

Geredigion. Roedd yr ail bwynt yn ymwneud â sut y mae cyfrifiadau gwres yn gweithio ar gyfer adeiladau swyddfa, sy'n cael eu gwresogi ar gyfer staff, ond mae staff yn gweithio gartref hefyd, felly maent yn gwresogi eu cartrefi hefyd, felly mae'n werth ystyried bod gwresogi a'r defnydd o garbon yn cael ei gynyddu o ganlyniad.

**<u>Gwella Llesiant Cymunedol a mynd i'r afael â chaledi yn Aberteifi</u>**

Rhoddodd HLL ddiweddariad am y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ddiweddar: trafodwyd y cynllun Llesiant yn fanwl, cynhaliwyd cyfarfodydd ym mis Medi, mis Hydref a mis Tachwedd. Yn ystod cyfarfodydd, cafwyd trafodaethau am gynlluniau ar gyfer y seilwaith gwyrdd, yn ogystal â chynorthwyo pobl a sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch gwasanaethau caledi yn cael ei dwyn ynghyd, gan ddarparu cymorth yn ein cymunedau.

Ym mis Hydref, rhoddodd Sarah Humphreys (Rheolwr Tîm ar gyfer Gofalwyr a Chymorth Cymunedol, Cyngor Sir Ceredigion) gyflwyniad i'r aelodau am gymunedau Oed-Gyfeillgar a sut y gallai Ceredigion fod yn gefnogol o'r dull gweithredu hwn. Cynigiwyd y byddai'n ddefnyddiol cyflwyno hwn i BGC.

**GWEITHREDU: Ychwanegir cyflwyniad ynghylch cynorthwyo'r Cymunedau oedrannus/Oed-Gyfeillgar yng Ngheredigion i agenda cyfarfod nesaf BGC**

Adroddodd HLL y cynhaliwyd ffair gyllid ac y cynhaliwyd digwyddiadau i ofalwyr ac ynghylch yr argyfwng costau byw yn Aberteifi dros y misoedd diwethaf. Cafwyd cyflwyniad am gyhoeddiad data diweddaraf y Cyfrifiad gan Dîm Ymchwil a Pherfformiad Cyngor Sir Ceredigion a rhoddodd Gareth Lewis, Cyngor Sir Ceredigion gyflwyniad am brosiect Ysgol Gymunedol Aberteifi.

**<u>Lles yn Llanbedr Pont Steffan</u>**

Adroddodd EJ bod y grŵp wedi cyfarfod, ac y cafwyd ymgysylltu da gyda nifer o gyrff perthnasol. Yn ystod y cyfarfod blaenorol, cafwyd gwybodaeth am grantiau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhandiroedd ac ystyriwyd lleoliadau yn Llanbedr Pont Steffan a chyfleoedd i ddatblygu hyn ymhellach gan ddefnyddio'r cyllid hwn ac mae Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant yn cael cyswllt gyda hyn. Dywedodd EJ y cafwyd cyflwyniad am Ganolfannau Clyd, a bod cysylltiadau yn cael eu ffurfio gyda'r Is-grŵp Tlodi ac anogwyd partneriaid i gynorthwyo cymunedau i sefydlu Canolfannau Clyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Dywedodd EJ y caiff is-grŵp Bwyd a Lles ei sefydlu i gynorthwyo gyda chymorth, gan nodi'r gynulleidfa darged a sut y bydd modd cynnal y gwaith wrth symud ymlaen, heb ddyblygu. Daethpwyd i'r casgliad bod angen i ni gael canolfan gydweithredol er mwyn sicrhau bod yr holl sefydliadau perthnasol yn cydweithio.

Yn olaf, cafwyd diweddariad am y cynllun seilwaith gwyrdd ar gyfer Llanbedr Pont Steffan, cyflwynwyd trosolwg o'r prosiectau posibl sydd yn eu lle ar gyfer Llanbedr Pont Steffan. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Ionawr.

| **32.7** | **Adroddiad Cynnydd yr Is-grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid** |
| --- | --- |

Adroddodd CM y cynhelir y cyfarfodydd bob chwarter a'u bod wedi cyfarfod ddiwethaf ym mis Hydref. Mae'n grŵp lle y mae niferoedd da yn mynychu ac mae'n cael ei gefnogi yn dda gan

bartneriaid BGC. Adolygwyd y Cylch Gorchwyl yn ystod y cyfarfod diwethaf ac mae bellach yn cynnwys cyfeiriad at Affganistan ac Wcráin a chytunwyd hefyd y dylid gwahodd Eglwysi yng Nghymru ac Addysg Oedolion Cymru i gyfarfodydd yn y dyfodol. Ariannir rhan fwyaf y gwaith a gyflawnir gan grant a geir gan Gyngor Sir Ceredigion. Adroddodd CM bod Ceredigion yn cynorthwyo 43 o deuluoedd ym mis Hydref a bod y garfan fwyaf yn dod o Wcráin ar hyn o bryd. Roedd y Groes Goch yn cynorthwyo teuluoedd a cheir swyddog a 2 weithiwr cymorth i deuluoedd sy'n cynorthwyo teuluoedd o Wcráin a theuluoedd sy'n lletya. Cynigir cyfleoedd i'r oedolion fynychu gwersi Cymraeg, wrth i'r plant ddysgu yn yr ysgol. Mae tîm allgymorth cymunedol Hywel Dda wedi gwneud gwaith gwych wrth sicrhau bod y ffoaduriaid yn gwybod sut i fanteisio ar wasanaethau iechyd yn y gymuned a darparir dogfennau mewn amrywiaeth o ieithoedd er mwyn cynorthwyo'r broses hon.

Ceir cyllid ychwanegol i gynorthwyo ysgolion, sy'n talu am gymorth Saesneg.

Adroddwyd y bu Canolfan Groeso Llangrannog yn llwyddiannus iawn dros yr haf, gan gynnig lloches i dros 70 o deuluoedd, a bach iawn fu'r tensiynau a welwyd o ran cydlyniant cymunedol.

Adroddodd CM bod ceiswyr lloches sy'n cyrraedd y tu allan i lwybrau ffoaduriaid yn methu manteisio ar gronfeydd cyhoeddus a bod y swyddfa gartref yn ei chael hi'n anodd iawn sicrhau llety i bobl wrth iddynt aros i weld a gaiff eu cais am loches ei gymeradwyo neu beidio. Yn flaenorol, byddai modd i awdurdodau lleol wirfoddoli i fod yn ardal wasgaru ceiswyr lloches, ond bellach, mae hyn yn orfodol oherwydd y pwysau ar yr ardaloedd gwasgaru hyn. Er y darparir cymorth gan sefydliadau allanol sydd wedi ymrwymo i'r Swyddfa Gartref, cynigiwyd bod angen paratoi strategaeth yng Ngheredigion, yn barod ar gyfer unrhyw newydd-ddyfodiaid o'r fath, a fydd yn cynnwys mecanweithiau cyfathrebu clir.

Diolchodd AW i CM am yr adroddiad a diolchodd i'r holl bartneriaid am fynychu ac am gyfrannu i'r cyfarfodydd hyn.

| **32.8** | **Diweddariad am Strwythur Iechyd Cyhoeddus a BIPHDd – ymyrraeth wedi'i thargedu** |
|---|---|

Rhoddodd JB ddiweddariad am yr ailstrwythuro wrth i'r tîm Iechyd Cyhoeddus symud i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; bellach caiff 7 aelod o'r tîm a gyflogwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru eu cyflogi gan Hywel Dda ac mae eu gwaith yr un fath, ond mae'r ailstrwythuro yn cynnig mwy o gyfle i gydweithio'n agosach gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, BGCau a gofal sylfaenol.

Dywedodd y cadeirydd y bydd angen i ni newid Cylch Gorchwyl BGC efallai er mwyn adlewyrchu'r newid newydd hwn, fodd bynnag, nododd JB bod cynrychiolaeth yn BGC yn y dyfodol yn cael ei drafod, ac ar ôl y caiff hyn ei gwblhau, caiff y BGC ei ddiweddaru.

**GWEITHREDU: Rhoi diweddariad ynghylch cynrychiolaeth Iechyd Cyhoeddus ac eglurhad ynghylch presenoldeb mewn cyfarfodydd BGC yn y dyfodol yn ystod y cyfarfod nesaf, ar ôl cael cadarnhad.**

**Diweddariad am Ymyrraeth wedi'i Thargedu (BIPHDd)**
Dywedodd DW bod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu i BIPHDd ddiwedd fis Medi i nodi bod

statws monitro estynedig Hywel Dda wedi cael ei godi i ymyrraeth wedi'i thargedu o ganlyniad i'r sefyllfa ariannol ac nad oedd cynllun blynyddol wedi cael ei baratoi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ymyrraeth wedi'i thargedu yn ymwneud â'r sefyllfa ariannol yn hytrach na'r sefyllfa o ran perfformiad ac mae'r sefyllfa ariannol yn cael ei gyrru gan y gweithlu, ffurfweddiad gwasanaethau presennol mewn ysbytai, cyfnodau aros estynedig mewn ysbytai a chost gofal iechyd.

Mae'r materion a gyflwynwyd yn cynnwys methu rhyddhau cleifion, sy'n arwain at oblygiadau i ansawdd y gofal a'r sefyllfa ariannol. Nododd DW bod BIPHDd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar y camau y mae angen eu cymryd i wella'r sefyllfa; trefnwyd cyfarfodydd chwarterol gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid cenedlaethol, a chaiff y cyfarfodydd hyn eu cadeirio gan Brif Weithredwr GIG Cymru, a hefyd, law yn llaw â hyn, bydd cytundeb am y camau i symud y BI allan o'r sefyllfa hon ac i ystyried capasiti y tîm cynllunio i gyflawni'r hyn sy'n angenrheidiol.
O ran y goblygiadau ar gyfer BGC i bartneriaid, mae'r rhain yn fân, ond sicrheir y bydd rhanddeiliaid yn glir am y bwriad wrth symud ymlaen pan geir eglurder am y sefyllfa.

| 32.9 | **Adborth gan Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion** |
|---|---|

Roedd KE wedi rhoi ei ymddiheuriadau fel cadeirydd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion. Fodd bynnag, nododd GE bod y Cynllun Llesiant Lleol a diweddariad am yr ymgynghoriad, yn ogystal â'r cofnodion diwethaf, wedi cael eu cyflwyno i aelodau'r pwyllgor craffu.

| 32.10 | **Diweddariad am y Bwrdd Ataliadau RPB** |
|---|---|

Nododd HLL bod Bwrdd Ataliadau newydd wedi cael ei drefnu ar gyfer ardal Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion, a'r bwriad yw darparu meysydd cyffredin o bersbectif ataliadau ac Iechyd a lles ar draws y rhanbarth, gan ystyried y Cynlluniau Llesiant arfaethedig ac mae rhaglen waith yn cael ei datblygu a rennir gyda'r BGC yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol.
**GWEITHREDU: Diweddariad am Fwrdd Ataliadau RPB yn ystod y cyfarfod nesaf**

| 32.11 | **Unrhyw fater arall** |
|---|---|

Nododd AW y bydd nifer o lwybrau bws ar draws y sir yn cael eu lleihau yn gynnar yn 2023, a nododd y bydd effaith hyn yn creu her i'r Awdurdod. Mae hyn wedi digwydd oherwydd diffyg gyrwyr bws cymwys, costau'r tendrau a'r ffaith bod prisiau yn eithriadol o uchel. Mae'n destun pryder ei bod yn mynd yn anos cadw ein cymunedau yn gysylltiedig, ond rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng hyn a'r gost. Caiff copi o'r datganiad i'r wasg ei anfon ymlaen at aelodau BGC cyn gynted ag y bo modd a chafwyd trafodaeth ynghylch a fyddai grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnig budd oherwydd y gallai'r lleihad yn nifer y teithiau rhwng cymunedau effeithio ar gyfleoedd i fanteisio ar wasanaethau.
**GWEITHREDU: Rhannu'r datganiad i'r wasg ynghylch 'Llwybrau Bws'**
**GWEITHREDU: Ystyried sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn pennu'r ffordd orau o reoli mynediad i wasanaethau, gan amharu cyn lleied ag y bo modd ar breswylwyr.**

| 32.12 | **Dyddiad y cyfarfodydd nesaf** |
|---|---|

| |
|---|
| 6 Mawrth 2023 – 13:30-15:30<br>24 Ebrill 2023 – 14:00-15:00 |